# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â/ag:

Ysgrifenyddiaeth y Siambr

Agenda
(10) v4

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**

[Gweld y cwestiynau]

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**

[Gweld y cwestiynau]

**3. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso Aled Roberts - WEDI'I OHIRIO TAN 6 GORFFENNAF 2011 (15 munud)**

**4. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso John Dixon - WEDI'I OHIRIO TAN 6 GORFFENNAF 2011 (15 munud)**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM4770 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfnod canol (8-13 oed) er mwyn integreiddio'r system ysgol ac i bontio'r gagendor rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer plant 8-13 oed gyda'r nod o sicrhau bod y cyfraddau presennol ar gyfer anllythrennedd ac anrhifogrwydd ymhlith plant sy'n gadael ysgol gynradd yn cael eu haneru erbyn 2016.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r cyfnod canol hwn wella'r trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ffurfioli partneriaethau rhwng yr ysgolion hyn, cyflogi mwy o athrawon pontio, a sicrhau bod y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion uwchradd yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng addysgu academaidd a bugeiliol.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM4771 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 'A Communications Review for the Digital Age', gan gynnwys ei bwyslais ar ddadreoleiddio a'r goblygiadau o ran comisiynu rhanbarthol a'r cyfryngau ehangach yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei hymateb.

Mae copi o 'A Communications Review for the Digital Age' ar gael yn:

http://www.culture.gov.uk/what_we_do/telecommunications_and_online/8109.aspx

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Hefyd yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi unrhyw ohebiaeth rhyngddi â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar fater darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru i ymrwymo i archwilio ac adnabod y buddion

cynaliadwy a allai ddod i Gymru yn sgil teledu lleol er mwyn helpu i ddiogelu ein sector cyfryngau cryf ac amrywiol.

**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM4772 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen gwella safonau ysgolion drwy:

a) cyflwyno premiwm disgybl er mwyn targedu arian at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, gan helpu i gau'r bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr;

b) datblygu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, a gaiff ei chyllido drwy gael gwared ar Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a thrwy wella prosesau cynllunio’r gweithlu;

c) diweddaru’r cwricwlwm cenedlaethol fel ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol;

d) fynnu bod adolygiad annibynnol llawn o drefniadau llywodraethu ysgolion yn cael ei gynnal, gan archwilio’n benodol faterion yn ymwneud ag atebolrwydd lleol, yr arweinyddiaeth briodol ar gyfer cyrff llywodraethu, ac a fyddai un corff llywodraethu yn briodol ar gyfer dalgylchoedd; ac

e) gwella’r trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ffurfioli’r partneriaethau rhwng yr ysgolion hyn, cyflogi mwy o athrawon pontio, a sicrhau bod y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion uwchradd yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng addysgu academaidd a bugeiliol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt a) ac ailrifo’r pwyntiau sy'n dilyn.

***[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3, 4 a 5 yn cael eu dad-ddethol]***

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu is-bwyntiau b) i e) a rhoi is-bwyntiau newydd yn eu lle:

Gweithredu cynlluniau Llywodraeth Cymru yn fanwl ar gyfer gwella safonau llythrennedd a monitro canlyniadau’r cynlluniau hynny;

Darparu cwricwlwm cenedlaethol cyflawn i gynnwys amser ar gyfer chwaraeon,

economeg y cartref a sgiliau bywyd; a

Datblygu cam canol mewn addysg.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn is-bwynt b), dileu popeth ar ôl ‘datblygiad proffesiynol parhaus’

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn is-bwynt d), dileu ‘Gorchymyn adolygiad annibynnol llawn’ a rhoi ‘Cynnal adolygiad’ yn ei le.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt e).

**Cyfnod pleidleisio**

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2011